

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Ffordd Ymuno Tua'r Gogledd yn
Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf)
(Gwahardd Cerbydau Llydan Dros
Dro) 2022

The A470 Trunk Road
(Northbound Entry Slip Road at
Taffs Well, Rhondda Cynon Taf)
(Temporary Prohibition of Wide
Vehicles) Order 2022

Gwnaed 13 Mehefin 2022

Made 13 June 2022

Yn dod i rym 17 Mehefin 2022

Coming into force 17 June 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Cardiff to Llangurig trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mehefin 2022.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Northbound Entry Slip Road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Prohibition of Wide Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 17 June 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 17 Mehefin 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.85 metr o led neu'n lletach ar y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd y gefnffordd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

13 Mehefin 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 22:00 hours on 17 June 2022 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 2.85 metres on the length of the northbound entry slip road of the trunk road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

13 June 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government